

Meicroffonau yn y Siambr

8 Awst 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 15 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn,

- 1. Y dyddiad y gosodwyd dau ficroffon y tu ôl i'r Prif Weinidog yn Siambr y Cynulliad?*
- 2. Cost y ddau feicroffon a osodwyd y tu ôl i'r Prif Weinidog yn Siambr y Cynulliad?*

1. Gosodwyd meicroffonau 'ffin' newydd y tu ôl i seddi'r cabinet yn ystod toriad yr haf 2013, mewn ymateb i nifer o gwynion gan Aelodau'r Cynulliad ac ymwelwyr â'r oriel gyhoeddus am ansawdd y sain yn y Siambr.
2. Cost y ddau feicroffon dan sylw oedd £1,320 yr un.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

Jonathan Thomas
Llywodraethu ac Archwilio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF